# Polisi Rheoli Data Ymchwil

Fersiwn 3.0

| | |
|---|---|
| **Teitl y Polisi** | Polisi Rheoli Data Ymchwil |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | 18 Chwefror 2020 |
| **Corff Cymeradwyo** | Y Pwyllgor Ymchwil |
| **Fersiwn** | 3.0 |
| **Disodli** | 2.2 |
| **Dyddiad yr adolygiad blaenorol** | Mehefin 2021 |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | Hydref 2022 |
| **Perchennog y polisi** | Dirprwy Is-Ganghellor - Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi |
| **Prif gyswllt** | Swyddog Mynediad Agored a Data Ymchwil |

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r cyfrifoldebau, ar lefel unigol a sefydliadol, a ddylai dywys gwaith y rhai sy'n ymwneud â chasglu, prosesu, storio, cynnal ac archifo data.

1. Caiff data ymchwil ei reoli i'r safonau uchaf trwy gydol cylch bywyd y data ymchwil yn rhan o ymrwymiad y Brifysgol i ragoriaeth ymchwil.
2. Yn ystod cyfnod prosiect neu raglen ymchwil gan y Prif Archwilwyr yn bennaf mae'r cyfrifoldeb am reoli data ymchwil.
3. Rhaid i bob cynnig ymchwil newydd gynnwys Cynllun Rheoli Data (CRhD) sy'n rhoi sylw'n benodol i gaffael, rheoli, storio, cywirdeb, costau cysylltiedig, cyfrinachedd, cadw, rhannu a chyhoeddi data.
4. Rhaid i fuddiannau cyfreithiol unrhyw unigolyn sy'n cyfranogi mewn ymchwil gael eu gwarchod.
5. Dylai data a chofnodion ymchwil gydymffurfio â'r canlynol:
    - Bod yn gywir, yn gyflawn, yn ddilys a dibynadwy, ac wedi'u dogfennu
    - Rhaid eu cadw mewn dull cwbl ddiogel
    - Rhaid eu cadw mewn dull sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a, lle bo'n briodol, gofynion cyrff cyllido a phrotocoliau prosiect-benodol a gymeradwyir gan Banel Moeseg Ymchwil y Brifysgol.
    - Rhaid bod modd eu rhannu ag eraill yn unol ag egwyddorion priodol moeseg, rhannu data a mynediad agored
    - Rhaid i ddata sy'n cael ei rannu'n agored ddilyn yr egwyddorion hyn – bod modd ei ganfod, cael mynediad ato, ei ailddefnyddio, a'i ryngweithredu.
6. Rhaid cadw data ymchwil ac unrhyw gofnodion cysylltiedig cyhyd â'u bod o werth parhaus i'r ymchwilydd a'r gymuned ymchwil ehangach, a chyhyd ag a nodir gan y sawl sy'n cyllido'r ymchwil, cyfraith patentau, gofynion cyfreithiol neu ofynion rheoleiddiol eraill. Rhaid cadw data ymchwil am o leiaf tair (3) blynedd ar ôl cyhoeddi neu ryddhau'r ymchwil yn gyhoeddus. Mewn llawer i achos, bydd ymchwilwyr neu'r brifysgol yn penderfynu cadw data ymchwil am gyfnod hwy na'r isafswm a nodir neu am gyfnod amhenodol.
7. Dylai papurau ymchwil a gyhoeddwyd gynnwys datganiad byr sy'n disgrifio sut y gellir cael gafael ar unrhyw ddata ymchwil ategol, e.e. trwy gyfeirnodi a defnyddio dolen Dynodwr Gwrthrych Digidol (DOI)
8. Yn amodol ar fuddiannau trydydd parti, bydd data ymchwil sy'n cynorthwyo gwaith ysgolheigaidd a gynhyrchir gan aelod o staff Prifysgol, yn eiddo i'r Brifysgol ac fe gaiff ei gadw am gyfnod priodol yn unol â phwynt 6.
9. Yn amodol ar fuddiannau trydydd parti, bydd data ymchwil sy'n cynorthwyo gwaith ysgolheigaidd a gynhyrchir gan fyfyriwr yn y Brifysgol, yn parhau'n eiddo deallusol y myfyriwr ac fe'i cedwir am gyfnod priodol o amser yn unol â phwynt 6.
10. Os yw data neu gofnodion ymchwil i'w dileu neu eu dinistrio, dylid gwneud hyn yn unol â gweithdrefnau Cydymffurfiaeth Gwybodaeth y Brifysgol, gan gyflawni gofynion cyfreithiol, moesegol, gofynion ffynhonnell cyllid a chydweithwyr a chyda golwg benodol ar gyfrinachedd a diogelwch.
11. Cynigir data ymchwil i'w roi ar adnau a'i archifo yng nghadwrfa'r Brifysgol, neu gadwrfa genedlaethol, rhyngwladol neu bwnc-benodol. Bydd cofnod metadata yn cael ei greu yng nghadwrfa'r Brifysgol bob tro.
12. Bydd y Brifysgol yn rhoi hyfforddiant, cymorth a chyngor a lle bo'n briodol ganllawiau a thempladau ar gyfer rheoli data ymchwil a chynlluniau rheoli data.
13. Ni ddylid trosglwyddo hawliau cyfyngedig (nac anghyfynedig) i gyhoeddi data ymchwil i ddibenion masnachol yn ddi-dâl. Rhaid i'r Brifysgol gadw'r hawl i gyhoeddi, yn amodol ar ddarpariaethau cyfrinachedd a/neu rwymedigaethau contractau a lywodraethir gan amodau cyllid, neu yn ôl cyfarwyddyd Polisi Eiddo Deallusol y Brifysgol. Rhaid i unrhyw drwydded fasnachol o'r fath gael ei negodi rhwng y sawl sy'n gweud cais a'r Brifysgol.
14. Bydd y Brifysgol yn rhoi cyngor ac yn darparu dulliau a gwasanaethau ar gyfer storio, creu copïau, cofrestru, rhoi asedau ymchwil ar adnau ac archifo data ymchwil yn ystod ac ar ôl cwblhau prosiectau ymchwil.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i weddalennau Rheoli Data Ymchwil Aberystwyth, neu cysylltwch â researchdata@aber.ac.uk